# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**3.45 y.h., DYDD LLUN, 2AIL RHAGFYR, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

AELODAETH

**AELODAU CABINET**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Cyllid)
(Sedd Wag) (Addysg)

**PRIF WEITHREDWR**

Mr Dafydd Gibbard

**PENNAETH CYLLID**

Mr Dewi A Morgan

**PENAETHIAID UWCHRADD**

Mr David Healey – Ysgol Friars
Mr Arwyn Williams – Ysgol Brynrefail
Mr Aled Williams – Ysgol Ardudwy
Mr Kyle Jones – Ysgol yr Hendre

**PENAETHIAID CYNRADD**

Mr Gwion Owens – Ffederasiwn Cefn Coch a Thalsarnau
Mr Richard Derwyn Jones – Ysgol Chwilog
Ms Nia Puw – Ysgol Llanrug
Mr Alan Wynn Jones – Ysgol Cymerau
Mrs Eleri Morgan Davies – Ysgol y Gorlan
(Sedd Wag0

**UNDEBAU ATHRAWON**

Mr Clive Thomas – Ysgol Syr Hugh Owen

**LLYWODRAETHWYR**

**Arfon**

Cynghorydd Ioan Thomas – Ysgol y Gelli ac Ysgol Syr Hugh Owen
(Sedd Wag)

**Meirionnydd**

Ms Carys Meleri Fowles – Ysgol Penybryn ac Ysgol Tywyn
Mr Eifion Roberts – Ysgol Godre'r Berwyn

**Dwyfor**

Cynghorydd Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Cynghorydd Gwynfor Owen, Ysgol Hafod Lon

**ESGOBAETH**

Robert Townend – Archddiacon Meirionnydd

**YSGOLION EGLWYS**

Ms Joanna Thomas– Ysgol y Faenol

**YSGOLION ARBENNIG**

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

**SYLWEDYDDION**

Mr Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg
Ms Ffion Edwards Ellis, Pennaeth Cynorthwyol: Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad
Ms Debbie Anne Williams Jones, Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol
Ms Kathy Bell, Cyfrifydd Grwp – Ysgolion

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 11

I gadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 30 Medi 2024.

**5. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

I drafod unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion nad ydynt yn ymddangos a Rhaglen.

**6. AELODAETH Y FFORWM**

I dderbyn diweddariad llafar.

**7. BALANSAU YSGOLION: BLWYDDYN GYLLIDOL 2023/24** 12 - 15

Kathy Bell (Cyfrifydd Grwp Ysgolion) i gylwyno'r adroddiad.

**8. CYLLIDEB ADDYSG A DYRANIADAU YSGOLION** 16 - 20

Kathy Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion) i gyflwyno'r Adroddiad.

**9. DIWEDDARIAD: NEWIDIADAU DULL CYLLIDO ADY** 21 - 23

Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthywol: Anghenion Addysg Arbennig a Chynwysiad) i gyflwyno'r adroddiad.

**10. RHAGOLYGON YSGOLION** 24 - 26

Kathy Bell (Cyfrifodd Grŵp Ysgolion) i gyflwyno'r adroddiad.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

I godi unrhyw fater perthnasol.

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

I gadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf.

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
# 30.09.2024

**Yn bresennol:**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorwyr Beca Brown (Addysg) a Paul Rowlinson (Cyllid)

**Penaethiaid Ysgolion:**

Uwchradd: David Healey (Ysgol Friars)
Aled Williams (Ysgol Ardudwy)

Cynradd: Richard Derwyn Jones (Ysgol Chwilog) (Cadeirydd)
Gwion Owens (Ffederasiwn Cefn Coch a Thalsarnau)
Nia Puw (Ysgol Llanrug)
Alan Wynn Jones (Ysgol Cymerau)
Eleri Morgan Davies (Ysgol y Gorlan)

**Llywodraethwyr:** Cynghorydd Ioan Thomas (Ysgol y Gelli ac Ysgol Syr Hugh Owen)
Carys Meleri Fowles (Ysgol Penybryn ac Ysgol Tywyn)
Cynghorydd Gwilym Jones (Dwyfor - Ysgol Borth-y-gest)

**Ysgolion Eglwys:**

**Ysgolion Arbennig:**

**Esgobaeth:**

**Undebau Athrawon:** Clive Thomas (Ysgol Syr Hugh Owen)

**Sylwedydd:** Gwern ap Rhisiart (Pennaeth yr Adran Addysg)
Debbie Anne Williams Jones (Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol)
Kathy Bell (Cyfrifydd Grŵp Ysgolion)
Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol: Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad)

**Swyddogion:** Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth),a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), y Cynghorydd Gwynfor Owen (Llywodraethwr Ysgol Hafod Lon) a Joanna Thomas (Ysgol y Faenol).

Croesawyd David Healey (Ysgol Friars), Gwion Owens (Ffederasiwn Cefn Coch a Thalsarnau) a Nia Puw (Ysgol Llanrug), aelodau newydd o'r Fforwm, i'w cyfarfod cyntaf. Croesawyd y Cynghorydd Ioan Thomas (Ysgol y Gelli ac Ysgol Syr Hugh Owen) yn ôl i'r Fforwm fel cynrychiolaeth Llywodraethwyr Arfon.

Cydymdeimlwyd yn ddwys gydag Arwyn Williams (Ysgol Brynrefail) a'i deulu yn dilyn eu profedigaeth ddiweddar.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf, 2024 fel rhai cywir, gan dderbyn diweddariad fel y nodir isod.

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

**Eitem 10: Fformiwla Cyllido Ysgolion Uwchradd - Adolygu Arlwyaeth a Glanhau:-**
Cadarnhawyd bod is-grŵp wedi ei sefydlu o blith penaethiaid ysgolion uwchradd er mwyn trafod y fformiwlâu. Nodwyd bod yr is-grŵp wedi cyfarfod eisoes ac yn cynnal eu hail gyfarfod yn fuan.

**Cofnod cyfarfod 17 Gorffennaf 2023 o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion:-**
Nodwyd bod cofnodion y cyfarfod hwn yn tynnu sylw at argymhellion a blaenoriaethau ESTYN yn dilyn eu hymweliad gyda'r awdurdod. Manylwyd bod y rhain yn ymwneud â chynllunio strategol, presenoldeb a chynhwysiad. Cadarnhawyd nad oes oblygiadau ariannol penodol ar gyfer y tri maes yma ar hyn o bryd ac mae gwaith cynllunio yn mynd rhagddo er mwyn gwireddu'r argymhellion a'r blaenoriaethau. Cyfeiriwyd at yr adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Hydref gan nodi bod modd i unrhyw un wylio'r gwe-ddarllediad os ydynt yn dymuno derbyn diweddariad pellach ar y gwaith.

## 5. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD** ethol Aled Williams (Pennaeth Ysgol Ardudwy) yn Is-gadeirydd y Fforwm am 2024/25.

## 6. AELODAETH Y FFORWM

Adroddwyd bod swyddogion wedi croesawu enwebiadau gan benaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod un sedd wag yn parhau ar gyfer cynrychiolaeth o benaethiaid cynradd a sedd wag arall am gynrychiolydd o blith y penaethiaid uwchradd. Esboniwyd bod Grwpiau Strategol penaethiaid yn cael eu cynnal yn fuan a gobeithiwyd y bydd cynrychiolaeth lawn ar y Fforwm yn dilyn hynny.

Eglurwyd bod un sedd wag o blith cynrychiolaeth Llywodraethwyr ardal Arfon. Nodwyd y bwriad i'r sedd hon gael ei llenwi erbyn y cyfarfod nesaf.

Soniwyd hefyd bod sedd wag ar gyfer cynrychiolaeth yr Esgobaeth. Nodwyd y bwriad i gysylltu efo'r Esgobaeth i ofynam gynrychiolydd i'r Fforwm, a gobeithiwyd y bydd aelodaeth wedi ei gadarnhau erbyn y cyfarfod nesaf.

## 7. BALANSAU YSGOLION: BLWYDDYN GYLLIDOL 2023/24

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion.

Adroddwyd bod lefelau balansau ysgolion unigol wedi cael eu dadansoddi ar gyfer yr Adroddiad hwn. Ymhelaethwyd bod balansau'r Awdurdod ar gyfer ysgolion wedi cael ei nodi hyd at 2017 er mwyn cymharu'r sefyllfa bresennol gyda'r sefyllfa cyn Covid-19. Esboniwyd bod balansau ysgolion wedi cynyddu yn ystod cyfnod y pandemig a bod hynny i'w weld yn genedlaethol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd y gwelir yr arian hynny a gynilwyd yn ystod y pandemig yn cael ei ddefnyddio'n gyflym iawn ar hyn o bryd. Cadarnhawyd mai cipolwg o'r balansau a welir yn yr adroddiad gan eu bod yn newid yn gyson. O'r herwydd, dylai unrhyw un sy'n eu hasesu bod yn ymwybodol iawn o'u natur newidiol cyn gwneud penderfyniadau.

Cadarnhawyd bod tair ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd mewn diffyg ariannol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2023/24. Esboniwyd bod hyn yn gyfran fechan o ysgolion mewn diffyg o'i gymharu ag Awdurdodau eraill. Pwysleisiwyd bod gwasanaethau Cyllid ac Addysg yn cydweithio gyda'r ysgolion hynny er mwyn datrys dyledion a chynllunio er mwyn i'r ysgolion fod mewn sefyllfa ariannol well i'r dyfodol. Nodwyd gall hyn fod yn waith datblygol dros ychydig flynyddoedd i'w wireddu.

Ystyriwyd faint o'r balansau sydd wedi cyfrannu tuag at ddatblygu cyllideb ar gyfer 2024/25. Rhannwyd enghraifft bod y mwyafrif o'r balansau yn cael eu clustnodi fel rhan helaeth o gyllideb y flwyddyn ddilynol gan arwain at wir balans isel ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mewn ymateb, pwysleisiodd y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion mai diweddariad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yw'r ffigyrau a ddangoswyd yn yr adroddiad gan gydnabod bod cyfran helaeth o'r arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer sefydlu cyllidebau o'r newydd ar 1af Ebrill yn flynyddol.

Tynnwyd sylw at falansau ysgolion uwchradd ac ystyriwyd bod gwahanol batrymau i'w weld o fewn yr ysgolion. Nodwyd bod rhai ysgolion gyda'u balansau yn tyfu'n flynyddol ac eraill yn defnyddio mwy ar eu balansau gan arwain at ffigyrau gymharol gyson yn flynyddol. Mewn ymateb i'r sylwadau, cadarnhaodd Cyfrifydd Grŵp Ysgolion bod hyn yn deillio o gynlluniau unigol ysgolion a'r anghenion sydd yn flaenoriaethau iddynt. Esboniwyd hefyd bod cynnydd mewn niferoedd staff drwy gytundebau dros dro yn ystod cyfnod y pandemig wedi arwain ar gynnydd mewn staff ysgolion ar draws y sir. Ymhelaethwyd bod nifer fawr o'r cytundebau hynny bellach wedi dod i ben a bod llai o staff o fewn ysgolion yn gyffredinol. Ystyriwyd bod hyn yn cael effaith ar ysgolion gan fod llai o bobl yn gyflogedig yno ond mae'n eu cynorthwyo i aros o fewn eu cyllideb.

Adroddwyd ar falansau Ysgol y Moelwyn gan nodi bod eu balansau hwy wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Pwysleisiwyd nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng yr ysgol hon ac ysgolion eraill y sir ac nid yw'n cael ei ffafrio mewn unrhyw ffordd, oni bai am drefniadau lleol ble mae'r ysgol yn gyfrifol am y pwll nofio cyhoeddus. Nodwyd bydd swyddogion yn cynnal trafodaethau gyda'r ysgol yn fuan er mwyn trafod eu llwyddiant gyda'r balansau er mwyn rhannu arferion da a strategaethau, os yn bosib, gydag ysgolion eraill y Sir.

Nodwyd bod gofyniad i'r ysgolion sydd gyda balansau uwch yn y gorffennol i'w gwario. Er hyn, credir ei bod yn ddoeth i beidio gwneud hynny ar gyfer ysgolion sydd gyda balansau uchel ar hyn o bryd gan fod y wybodaeth yn tystiolaethu pa mor sydyn gall sefyllfaoedd yr ysgolion ddirywio. Yn hytrach, dylai'r pwyslais fod ar benaethiaid i sicrhau bod yr ysgolion yn cael eu gwarchod yn ofalus drwy gyfnod yr ansicrwydd ariannol presennol.

Eglurwyd yr angen i edrych ar y balansau hyn a'u cymharu gyda niferoedd disgyblion yr ysgolion, er mwyn asesu os yw'r ysgolion mwyaf yn gorfod gwneud mwy o ddefnydd o falansau wrth gefn er mwyn osgoi dyled, tra bod yr ysgolion llai yn gallu cael eu rhedeg heb ddefnyddio'r balansau.

Rhagdybiwyd bod cyfanswm balansau ysgolion yn mynd i leihau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol i fod yn agosáu at oddeutu £4miliwn, gan ddychwelyd i'r sefyllfa a welwyd cyn y pandemig.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth**
- **Derbyn diweddariad pellach yn y cyfarfod nesaf sy'n cymharu balansau'r ysgolion gyda niferoedd disgyblion. Cytunwyd i dderbyn cyfanswm y balansau fel canran o gyllideb lawn yr ysgolion fel rhan o'r adroddiad hon.**

**8. GRANTIAU YSGOLION 2024/25**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfrifydd Grŵp Ysgolion er gwybodaeth yn unig.

Eglurwyd bod £96miliwn yn cael ei ddyrannu ar gyfer yr holl ysgolion yn flynyddol. Nodwyd mai £9.4miliwn yw dyraniad grantiau Llywodraeth Cymru i ysgolion Gwynedd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25. Ymhelaethwyd bod Grant Chweched Dosbarth yn cael ei dderbyn gan y saith ysgol uwchradd berthnasol o fewn y sir, gwerth cyfanswm o £4.4miliwn eleni.

Adroddwyd bod arian grant yn ariannu cyflog staff, gan arwain at her dros y blynyddoedd diwethaf. Eglurwyd bod swm y grantiau yn aros yn gymharol debyg o flwyddyn i flwyddyn ond bod cyfradd chwyddiant o gyflogi staff yn cynyddu. Cadarnhawyd bod hyn yn arwain at doriad gan fod yr ysgolion yn gallu gwneud llai gyda'r arian erbyn heddiw nag oedden nhw rai blynyddoedd yn ôl.

Cadarnhawyd bod grant newydd wedi cael ei sefydlu ar gyfer 2024/25 o'r enw 'Grant Safonau'. Cydnabuwyd bod y Grant hwn yn disodli cyn grantiau eraill megis 'Grant Gwella Addysg - Cyfnod Sylfaen ac Arall', 'Cyflymu Dysgu (RRRS)' a 'Llwybrau Dysgu14-16oed'. Pwysleisiwyd bod y newid hwn wedi arwain at leihad o oddeutu £600,00 yn swm yr arian grant i Wynedd.

Nodwyd nad oes unrhyw awgrym ar hyn o bryd y bydd newidiadau mawr i grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26. Cadarnhawyd bydd y Pennaeth Addysg yn diweddaru ysgolion ar unrhyw newidiadau i'r grantiau i'r dyfodol os oes cynlluniau yn cael eu cyflwyno gan y Llywodraeth i'w haddasu.

**9. CEFNOGAETH TECHNOLEG**

Cyflwynwyd diweddariad llafar gan y Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth.

Darparwyd diweddariad i'r Aelodau ar ddatblygiadau i system gwybodaeth reolaethol ysgolion (MIS / SIMS) a diweddariad ar Gynllun Digidol y Cyngor (Prosiect CC2 - Gwelliannau i ddarpariaeth ffôn).

**System Gwybodaeth Reolaethol Ysgolion**
Eglurwyd bod y system gwybodaeth reolaethol yn feddalwedd sydd yn cael ei ddefnyddio ym mhob ysgol ac yn cael ei ddarparu gan gwmni ESS. Nodwyd bod y cwmni hwnnw yn colli eu monopoli o fewn y farchnad oherwydd bod y feddalwedd yn mynd yn hŷn a bod y cwmni wedi oedi rhy hir cyn cyflwyno olynydd iddo. Ymhelaethwyd bod cwmnïau newydd yn darparu meddalwedd tebyg ar y farchnad ar hyn o bryd gan amlygu'r risg y gall y cwmni stopio gweinyddu'r meddalwedd yn gyfan gwbl. Cadarnhawyd bod cytundeb y Cyngor gyda'r cwmni yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026. Pwysleisiwyd bod angen sicrhau bod cynllun mewn lle o 1 Ebrill 2026 ymlaen i sicrhau bod meddalwedd addas ym mhob ysgol.

Adroddwyd bod gweithgor wedi cael ei sefydlu, gyda chynrychiolwyr o benaethiaid cynradd ac uwchradd, cynrychiolaeth busnes a chynrychiolaeth yr awdurdod. Eglurwyd eu bod yn edrych ar opsiynau am feddalwedd addas i'r dyfodol megis adnewyddu cytundeb gyda'r darparwr presennol neu edrych ar ddarparwr amgen. Esboniwyd bydd angen penodi

Cadeirydd i'r gweithgor o blith y penaethiaid sy'n aelodau ohono. Diweddarwyd bod y gweithgor wedi edrych ar dair system gwahanol hyd yma ac yn rhoi ystyriaeth fanwl iddynt i gyd. Mynegwyd balchder o dderbyn cefnogaeth gyfreithiol a masnachol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) ar y mater hwn.

Cyfeiriwyd at effaith ariannol yr her hon gan bwysleisio bydd cynnydd i gostau refeniw yn 2026. Ymhelaethwyd nad yw cwmnïau yn caniatáu i ddefnyddwyr brynu'r meddalwedd ar gyfer dyfeisiadau ac yn hytrach, mae defnyddwyr yn hurio'r meddalwedd ar lwyfannau perthnasol. Cadarnhawyd bod hyn yn fwy costus i'r Cyngor na phrynu'r feddalwedd a'i osod ar isadeiledd ei hun.

Tybiwyd bydd angen canfod darparwr newydd os na fydd sefyllfa cwmni ESS yn newid. Nodwyd bydd hyn yn cael ei wneud yn y drefn briodol drwy ddangos bod gwahanol gwmnïau wedi cael cyfle i fod yn ddarparwyr i'r Cyngor a bod cystadleuaeth wedi bod. Ymhelaethwyd bydd costau mudo wrth adael ESS a byddai hynny'n disgyn i mewn i'r flwyddyn ariannol 2025/26. Cadarnhawyd bydd y Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth yn cyflwyno bid am aran i'r Cyngor i gyfarch y costau hyn pan fydd gwybodaeth fanylach yn dod i'r amlwg. Pwysleisiwyd hefyd bydd ystyriaeth yn cael ei roi ar gyfer costau ac amser hyfforddi staff ysgolion ar newidiadau i'r feddalwedd.

Esboniwyd bod y ffi o gyflwyno'r feddalwedd yn gyson ar gyfer pob ysgol. Ymhelaethwyd bod hyn yn cyflwyno her ynddo'i hun oherwydd bod y ffi ar gyfer ei gyflwyno i ysgol sydd â llai na 20 o blant yr un peth a'r ffi o'i gyflwyno i ysgolion uwchradd. Nodwyd bod hyn yn effeithio ar elfen ariannol y costau o ganfod darparwr newydd.

Rhagdybiwyd bydd y costau o newid darparwr y meddalwedd yn arwain at oddeutu dwbl y gost bresennol a phwysleisiwyd mai'r penderfyniad gorau er lles ysgolion fydd yn cael ei ddilyn, ac ni fydd y penderfyniad yn cael ei wneud ar sail ariannol yn unig.

**Cynllun Digidol y Cyngor**

Cadarnhawyd bod y ddarpariaeth ffôn yn cael ei newid. Nodwyd bod pob ysgol oni bai am un ysgol gynradd ar y system ffôn corfforaethol ar hyn o bryd ond pwysleisiwyd bydd pob ysgol ar yr un ddarpariaeth yn fuan.

Adroddwyd bod y Cyngor wedi cytundebu gyda darparwyr newydd a chadarnhawyd bod y system newydd yn rhoi cyfle i ysgolion wneud mwy o'r data sydd ar gael megis os ydi galwadau wedi cael eu methu, presenoldeb i ateb y ffôn ac opsiynau Whatsapp, negeseuon testun ac ati. Cydnabuwyd bydd pob rhif estyniad yn cael eu haddasu a bod gwaith sylweddol yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn gywir. Esboniwyd bod y systemau analog yn cael eu newid ar hyn o bryd a bydd mudo i system newydd yn haws gan fod pob ysgol yn defnyddio'r un ddarpariaeth.

Nodwyd bod y newid hwn yn rhan o Gynllun Digidol y Cyngor ac wedi cael ei ariannu o fewn y cynllun hwnnw. Rhagdybiwyd bydd costau ffôn yn lleihau oddeutu 30% wedi i'r newid hwn o analog i ddigidol gael ei gwblhau. Eglurwyd bydd ffioedd yn cael eu dyrannu yn dilyn niferoedd estyniadau gan olygu bydd ffioedd y gwasanaeth yn amrywio o ysgol i ysgol. Cydnabuwyd na welir y gwahaniaeth hwn nes blwyddyn ariannol 2025/26 gan gadarnhau bod y ffioedd ar gyfer y flwyddyn hon yn aros yn debyg i'r blynyddoedd diwethaf.

**10. CYLLID ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD 2025/26**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cynorthwyol: Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn ymdrin ag ariannu ceisiadau sy'n cyrraedd y Panel Cymedroli ar gyfer cefnogaeth i ddisgyblion unigol.

Nodwyd yr angen i ddyrannu'r cyllid ar sail anghenion a fformiwla yn hytrach na'r Panel Cymedroli, gan ddilyn arweiniad nifer o Awdurdodau Lleol sydd eisoes wedi cymryd y cam hwn. Esboniwyd byddai hyn yn arwain at system fwy teg oherwydd bod yr un fformiwla yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob ysgol. Ymhelaethwyd ei fod yn seiliedig ar ddefnyddio data sydd ar gael yn barod. Teimlwyd bydd y newid hwn yn rhoi mwy o sicrwydd i ysgolion gan arwain at swyddi sefydlog i gymorthyddion.

Cadarnhawyd bod y gwaith o weithio tuag at y newid hwn wedi cychwyn yn 2019 yn dilyn adroddiad allanol a oedd yn awgrymu'r ffordd orau ymlaen. Cydnabuwyd bod peth oediad wedi bod yn y gwaith hwn dros gyfnod y pandemig ond bod gwaith yn mynd rhagddo i gyflawni'r newid hwn fel blaenoriaeth erbyn hyn.

Adroddwyd bod y newid hwn yn seiliedig ar ddata ADY PLASC. Atgoffwyd yr aelodau bod saith model amrywiol wedi cael eu cyflwyno i'r Fforwm hwn yn 2022 ac mai dyma'r un a ffafriwyd yn dilyn yr adroddiad hwnnw. Nodwyd bod gwaith wedi mynd rhagddo i'w ddatblygu a chadarnhawyd mai dyma yw'r model sy'n cael ei weithredu ar hyn o bryd wrth arwain y newid ymlaen.

Mewn ymateb i ymholiad, cydnabuwyd nad oes ystyriaeth wedi cael ei roi i oedran y plant sydd gydag ADY. Nodwyd bod hyn oherwydd ei fod yn galluogi ysgolion i sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd orau o'r gyllideb er lles y plant tra hefyd yn sicrhau nad yw'r fformiwla i ddyrannu arian yn mynd yn or-gymleth.

Pwysleisiwyd bod cyllideb ADY wedi ei rewi ar gyfer 2024/25 oherwydd terfynau amser tynn a'r angen i ryddhau cyllidebau ysgolion. Pwysleisiwyd mai'r eithriadau i hyn yw darparu cefnogaeth unigol i unrhyw ddisgybl sydd wedi dod i mewn i'r Sir o fewn y flwyddyn hon. Cadarnhawyd bod hyn wedi rhoi cyfle i swyddogion edrych ar y gyllideb a'r ffordd orau ymlaen wrth ystyried y newid i system ganolog ar gyfer pob ysgol. Ymhelaethwyd bod niferoedd a lefelau dwyster ADY yn cael ei asesu drwy ddefnyddio data sy'n cael ei fewnbynnu i'r Cynllun Datblygu Unigol.

Manylwyd ar y cynllun o fewn ADY PLASC gan nodi ei fod wedi cael ei ddatblygu i edrych ar angen y plentyn ac nad oedd yn ystyried cefnogaeth allanol. Ymhelaethwyd hefyd bod cyllideb gwerth 5% o gyllideb ADY wedi cael ei glustnodi ar gyfer eithriadau o fewn y flwyddyn ysgol. Eglurwyd bod eithriadau yn cynnwys nifer o bethau megis dirywiad sydyn mewn amgylchiadau, neu blentyn gydag anghenion ADY yn symud i mewn i ardal addysg Gwynedd. Pwysleisiwyd hefyd bod y gyllideb ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion meddygol megis Diabetes math 1 neu epilepsi yn cael ei dynnu o'r gyllideb cyn ei ddyrannu. Cadarnhawyd y bydd unrhyw eithriad yn cael ei gyflwyno i'r Panel Cymedroli.

Ystyriwyd clustnodi isafswm cyllideb ar gyfer pob ysgol er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth ar gael er bod rhai ysgolion ddim efo disgyblion gyda CDU Awdurdod ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Nodwyd bod hyn yn galluogi'r Cyngor i roi darpariaeth i bob ysgol yn unol â niferoedd disgyblion a'r niferoedd sydd gydag anghenion ADY.

Gobeithiwyd cynnwys rhagolygon cyllideb ADY ym mis Rhagfyr 2024 er mwyn paratoi ar gyfer symud i'r model newydd erbyn Mawrth 2025.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**11. UNRHYW FATER ARALL**

Dim i’w nodi.

**12. DYDDIAD AR GYFER Y CYFARFOD NESAF**

Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf yn fuan ym mis Rhagfyr. Bydd y Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfrifydd Grŵp Ysgolion a’r Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth yn trafod dyddiad addas ar gyfer y cyfarfod nesaf mor fuan â phosib.

**PENDERFYNWYD derbyn adroddiad ar sut mae cyllidebau ysgolion yn cael ei ddyrannu o fewn y gwahanol sectorau (cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig) a gwasanaethau eraill yn ogystal â manylion demograffig er mwyn adnabod heriau a rhannu sylwadau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 3.45 y.h. a daeth i ben am 4:55 y.h.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **02 Rhagfyr 2024** |
| **TEITL** | **Balansau Ysgolion<br>Blwyddyn Gyllidol 2023/24** |
| **PWRPAS** | **Yn dilyn cais cyfarfod 30/09/2024** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion** |

## 1 Balansau Ysgolion

1.1 Atodir er gwybodaeth balansau ysgolion unigol 31/03/2024 ynghyd â gwerth y balansau fel canran o'r dyraniad terfynol am 2023/24 yn dilyn cais yn y cyfarfod diwethaf. Dyma grynodeb –

| | Dyraniad Terfynol 2023/24 | Balansau 31/03/2024 | Balansau 31/03/2024 fel % o'r Dyraniad |
|---|---|---|---|
| CYNRADD | £40,909,445 | £4,980,580 | 12.17% |
| DILYNOL | £6,563,497 | £811,962 | 12.37% |
| UWCHRADD | £39,809,207 | £2,161,056 | 5.43% |
| ARBENNIG | £5,126,570 | £588,473 | 11.48% |
| CYFANSWM | £92,408,719 | £8,542,070 | 9.24% |

1.2 Bellach mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y sefyllfa yng Nghymru. Dyma linc i'r datganiad –

Cronfeydd wrth gefn ysgolion: ar 31 Mawrth 2024 | LLYW.CYMRU

Hoffwn dynnu eich sylw yn benodol i lefel diffygion ymysg ysgolion Cymru, sef £39.5miliwn, gydag ysgolion Gwynedd yn £0.6miliwn o hyn.

Mae lleihad o £94miliwn ym malansau rhwng Mawrth 2023 a Mawrth 2024 sy'n dangos yr un patrwm a'r hyn ydan ni yn weld yng Ngwynedd a gyda rhagolwg o leihaf pellach yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

1.3 Bydd swyddogion addysg a cyllid yn parhau i weithio gyda'r ysgolion i fonitro'r sefyllfa.

## Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2024

| | | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2023 | Dyraniad Terfynol 2023/24 | Balansau 31/03/2024 | Balansau 31/03/2024 fel % o'r Dyraniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2000 | Gwaun Gynfi | **£157,342** | **£662,504** | **£160,522** | 24.23% |
| | 2 | 2004 | Nefyn | **£131,346** | **£593,388** | **£126,507** | 21.32% |
| | 3 | 2006 | Llanrug | **£116,246** | **£984,809** | **£80,958** | 8.22% |
| | 4 | 2008 | Abererch | **£67,416** | **£338,374** | **£54,023** | 15.97% |
| * | 5 | 2010 | Beddgelert | **£32,051** | **£231,185** | **£17,051** | 7.38% |
| | 6 | 2011 | Bethel | **£38,681** | **£619,864** | **£29,253** | 4.72% |
| | 7 | 2013 | Bodfeurig | **£56,733** | **£285,298** | **£62,745** | 21.99% |
| * | 8 | 2015 | Borthygest | **£11,644** | **£224,181** | **£322** | 0.14% |
| | 9 | 2017 | Brynaerau | **£64,545** | **£302,690** | **£77,255** | 25.52% |
| | 10 | 2026 | Y Gelli | **£170,208** | **£919,081** | **£127,506** | 13.87% |
| | 11 | 2028 | Penybryn | **£90,424** | **£616,407** | **£22,942** | 3.72% |
| | 12 | 2033 | Treferthyr | **£70,052** | **£499,134** | **£48,883** | 9.79% |
| | 13 | 2036 | Chwilog | **£22,598** | **£372,397** | **£18,204** | 4.89% |
| | 14 | 2039 | Crud Y Werin | **£75,793** | **£320,680** | **£69,940** | 21.81% |
| | 15 | 2042 | Dolbadarn | **£226,291** | **£641,372** | **£226,603** | 35.33% |
| | 16 | 2046 | Edern | **£81,547** | **£330,021** | **£75,005** | 22.73% |
| | 17 | 2048 | Bro Plennydd | **£25,192** | **£418,947** | **£2,743** | 0.65% |
| * | 18 | 2049 | Garndolbenmaen | **£23,628** | **£240,735** | **£48,122** | 19.99% |
| | 19 | 2060 | Llanbedrog | **£90,995** | **£424,941** | **£84,479** | 19.88% |
| * | 20 | 2066 | Llangybi | **£55,208** | **£198,044** | **£30,917** | 15.61% |
| | 21 | 2069 | Llanllechid | **£178,240** | **£1,060,857** | **£84,156** | 7.93% |
| | 22 | 2070 | Llanllyfni | **£59,233** | **£330,946** | **£71,463** | 21.59% |
| * | 23 | 2075 | Bab Morfa Nefyn | **£91,946** | **£207,611** | **£73,151** | 35.23% |
| * | 24 | 2078 | Baladeulyn | **£24,526** | **£226,133** | **£34,879** | 15.42% |
| * | 25 | 2081 | Nebo | **-£10,999** | **£194,857** | **£4,734** | 2.43% |
| | 26 | 2085 | Penisarwaen | **£53,117** | **£270,923** | **£57,403** | 21.19% |
| | 27 | 2089 | Bro Lleu | **£73,216** | **£838,251** | **£34,125** | 4.07% |
| | 28 | 2093 | Pentreuchaf | **£50,517** | **£440,958** | **£38,237** | 8.67% |
| * | 29 | 2097 | Rhiwlas | **£44,746** | **£251,614** | **£57,501** | 22.85% |
| * | 30 | 2098 | Rhosgadfan | **£3,909** | **£247,380** | **£1,623** | 0.66% |
| | 31 | 2099 | Rhostryfan | **£73,931** | **£331,912** | **£31,468** | 9.48% |
| * | 32 | 2103 | Sarn Bach | **£50,100** | **£252,661** | **£33,261** | 13.16% |
| | 33 | 2104 | Eifion Wyn | **£40,582** | **£871,699** | **-£12,339** | -1.42% |
| | 34 | 2108 | Talysarn | **£103,821** | **£492,763** | **£126,789** | 25.73% |
| | 35 | 2110 | Y Gorlan | **£144,062** | **£529,967** | **£111,981** | 21.13% |
| | 36 | 2111 | Yr Eifl | **£53,412** | **£292,867** | **£61,619** | 21.04% |
| | 37 | 2112 | Tudweiliog | **£36,769** | **£262,615** | **£28,551** | 10.87% |
| | 38 | 2113 | Waunfawr | **£60,115** | **£569,359** | **£80,526** | 14.14% |
| | 39 | 2116 | Glancegin | **£297,593** | **£1,013,114** | **£247,146** | 24.39% |
| | 40 | 2119 | Yr Hendre | **£135,722** | **£1,764,961** | **£121,403** | 6.88% |
| | 41 | 2122 | Bontnewydd | **£96,325** | **£926,905** | **£12,418** | 1.34% |
| | 42 | 2123 | Y Garnedd | **£114,182** | **£1,557,577** | **£56,028** | 3.60% |
| | 43 | 2125 | Cymerau | **£162,345** | **£1,221,907** | **£132,999** | 10.88% |
| | 44 | 2126 | Abercaseg | **£151,896** | **£482,819** | **£117,102** | 24.25% |

## Balansau Ysgolion 31 Mawrth 2024

| | | Rhif Ysgol | Enw Ysgol | Balansau 31/03/2023 | Dyraniad Terfynol 2023/24 | Balansau 31/03/2024 | Balansau 31/03/2024 fel % o'r Dyraniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 45 | 2127 | Y Felinheli | **£132,633** | **£719,045** | **£68,406** | 9.51% |
| | 46 | 2181 | Traeth | **£204,803** | **£774,156** | **£130,152** | 16.81% |
| * | 47 | 2185 | Corris | **£48,800** | **£275,192** | **£55,100** | 20.02% |
| | 48 | 2189 | Dyffryn Ardudwy | **£141,761** | **£383,230** | **£104,845** | 27.36% |
| * | 49 | 2190 | Bro Cynfal | **£89,597** | **£207,429** | **£39,632** | 19.11% |
| * | 50 | 2192 | Edmwnd Prys | **£72,440** | **£205,598** | **£27,991** | 13.61% |
| | 51 | 2194 | Llanbedr | **£58,459** | **£265,830** | **£37,900** | 14.26% |
| * | 52 | 2198 | Y Garreg | **£24,017** | **£203,781** | **£15,585** | 7.65% |
| | 53 | 2199 | O.M.Edwards | **£77,067** | **£408,868** | **£81,570** | 19.95% |
| | 54 | 2205 | Manod | **£163,075** | **£502,157** | **£154,643** | 30.80% |
| * | 55 | 2207 | Pennal | **£18,905** | **£223,945** | **£32,293** | 14.42% |
| | 56 | 2208 | Cefn Coch | **£116,852** | **£738,493** | **£85,524** | 11.58% |
| * | 57 | 2210 | Talsarnau | **£84,441** | **£202,187** | **£36,901** | 18.25% |
| * | 58 | 2211 | Tanygrisiau | **£29,321** | **£273,208** | **£10,975** | 4.02% |
| | 59 | 2212 | Penybryn | **£171,203** | **£1,021,306** | **£153,139** | 14.99% |
| | 60 | 2213 | Bro Hedd Wyn | **£46,861** | **£284,825** | **£18,919** | 6.64% |
| | 61 | 2214 | Frongoch | **£28,842** | **£246,903** | **£28,111** | 11.39% |
| | 62 | 2219 | Tan y Castell | **£66,772** | **£409,498** | **£57,168** | 13.96% |
| | 63 | 2220 | Ffridd y Llyn | **£7,031** | **£394,192** | **£38,244** | 9.70% |
| | 64 | 2221 | Maenofferen | **£163,522** | **£950,068** | **£115,323** | 12.14% |
| | 65 | 2227 | Hirael | **£123,121** | **£855,972** | **£115,850** | 13.53% |
| | 66 | 2228 | Craig y Deryn | **£21,249** | **£532,600** | **£20,119** | 3.78% |
| | 67 | 2229 | Bro Llifon | **£165,627** | **£688,688** | **£171,770** | 24.94% |
| | 68 | 3004 | Pont y Gôf | **£81,261** | **£410,280** | **£48,836** | 11.90% |
| | 69 | 3005 | Maesincla | **£68,937** | **£1,297,191** | **-£25,616** | -1.97% |
| | 70 | 3009 | Faenol | **£183,633** | **£937,024** | **£123,164** | 13.14% |
| * | 71 | 3010 | Foelgron | **£46,916** | **£221,072** | **£38,529** | 17.43% |
| | 72 | 3013 | Llandygai | **£65,677** | **£565,617** | **-£12,672** | -2.24% |
| * | 73 | 3018 | Llandwrog | **£32,930** | **£205,438** | **£13,925** | 6.78% |
| * | 74 | 3023 | Llanystumdwy | **£36,355** | **£206,599** | **£27,984** | 13.55% |
| | 75 | 3029 | Tregarth | **£92,614** | **£476,999** | **£64,325** | 13.49% |
| | 76 | 3030 | Cae Top | **-£9,308** | **£1,082,457** | **£26,601** | 2.46% |
| * | 77 | 3300 | Santes Helen | **£62,690** | **£239,912** | **£27,834** | 11.60% |
| | 78 | 3301 | Our Lady | **£120,223** | **£634,976** | **£77,304** | 12.17% |
| | | | **CYNRADD** | **£6,535,572** | **£40,909,445** | **£4,980,580** | **12.17%** |

